

Deiseb P-04-628

Gwella mynediad at addysg
a gwasanaethau mewn laith
Arwyddion Prydain

Hydref 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDeisebau@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddDeisebau**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Deiseb P-04-628

Gwella mynediad at addysg
a gwasanaethau mewn Iaith
Arwyddion Prydain

Hydref 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 28 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23.

Ei rôl oedd ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynwyd gan y cyhoedd. Roedd yn rhaid i'r deisebau fod ar faterion yr oedd gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Roedd y broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

Cadeirydd y Pwyllgor:



David J Rowlands AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Janet Finch-Saunders AC
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru
Ynys Môn



Neil McEvoy AC
Annibynnol
Canol De Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Y Ddeiseb	6
Y cefndir	7
2. Yr amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor Deisebau.....	9
Uchelgeisiau'r deisebwyr	9
3. Gwella mynediad fel y gall teuluoedd ddysgu Iaith Arwyddion Prydain	11
4. Iaith Arwyddion Prydain ar y Cwricwlwm Cenedlaethol	14
5. Gwella mynediad at addysg mewn Iaith Arwyddion Prydain i blant a phobl ifanc byddar	17
Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).....	18
Datblygu a chynllunio'r gweithlu.....	19
6. Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau ym maes Iaith Arwyddion Prydain ar gael i bobl ifanc fyddar.....	21

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi iaith Arwyddion Prydain fel iaith leiafrifol, ac annog awdurdodau lleol i'w chydabod fel iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar wrth ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth.

..... Tudalen 13

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau, gan gynnwys addysg, i blant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd. Credwn y byddai siarter o'r fath, wedi'i hategu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio cefnogaeth a darparu adnoddau ar ei chyfer o fewn fframwaith a gydnabyddir yn genedlaethol, a helpu i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth ledled Cymru..... Tudalen 13

Argymhelliad 3. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod iaith Arwyddion Prydain yn cael ei hystyried yn weithredol yn y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru, yn benodol fel rhan o Brofiad Dysgu Llythrennedd, Iethoedd a Chyfathrebu. Felly, rydym yn argymhell bod y cyfle i ddysgu iaith Arwyddion Prydain ar gael i blant ar bob lefel addysg. Fel rhan o hyn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ystyried creu TGAU iaith arwyddion fel iaith gyntaf gyda Cymwysterau Cymru.

..... Tudalen 16

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol AAA, gan ganolbwyntio'n benodol ar athrawon sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o gynaliadwyedd tymor hwy y gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, rydym yn cefnogi'r syniad o gyflwyno cymhwyster iaith Arwyddion Prydain safonol gofynnol ar gyfer cynorthwywyr dysgu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc byddar.

.....Tudalen 20

1. Y Ddeiseb

1. Mae Deffo! yn fforwm i bobl ifanc fyddar yng Nghymru. Ei nod yw gwella mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc fyddar yng Nghymru, ac i annog cyfranogiad yn y gymuned fyddar.¹ Roedd Deffo! i ddechrau yn rhan o Gymdeithas Fyddar Prydain ond yn dilyn colli arian ar gyfer Fforwm Ieuenctid Byddar Cymru,² mae'r fenter bellach yn cael ei chefnogi gan Ganolfan Byddar Abertawe.

2. Cyflwynwyd y ddeiseb a ganlyn³ gan Catherine Robins-Talbot ar ran Deffo! Fforwm Ieuenctid Byddar Cymru, gan ddefnyddio system ddeisebau ar-lein Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wella mynediad at addysg a gwasanaethau o ran Iaith Arwyddion Prydain er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl fyddar o bob oedran.

Gwella mynediad fel y gall teuluoedd ddysgu iaith Arwyddion Prydain: Pan fo plentyn yn cael diagnosis ei fod yn fyddar/yn drwm ei glyw, dylid cynnig gwersi am ddim/gwersi â chymhorthdal i'w rieni, fel y gallant ddysgu iaith Arwyddion Prydain (mae cwrs iaith Arwyddion Prydain lefel un yn costio tua £300 y pen). Drwy ddefnyddio lleferydd yn unig, mae plant byddar yn ei chael yn anodd datblygu sgiliau cyfathrebu, neu'n methu â gwneud hynny, gan fethu â chyrraedd cerrig milltir pwysig. Bydd dysgu ieithoedd eraill drwy iaith Arwyddion Prydain (Cymraeg/Saesneg) yn gwella dealltwriaeth y plentyn.

Cyflwyno iaith Arwyddion Prydain ar y Cwricwlwm Cenedlaethol: Bydd plant a phobl ifanc byddar sy'n dysgu iaith Arwyddion Prydain pan fyddant yn ifanc yn cael gwell mynediad at addysg a bydd yn fuddiol i'w lles. Dylai iaith Arwyddion Prydain gael ei haddysgu i bawb gan athrawon byddar cymwys mewn ysgolion, a byddai hynny'n sicrhau gwell mynediad i bawb yn y gymdeithas. Credwn y dylai iaith Arwyddion Prydain gael ei chynnig fel cymhwyster iaith i bob dysgwr. Nid yw TGAU Cymraeg (ac ieithoedd modern eraill) yn cael eu cynnig bob amser i ddisgyblion byddar; mae angen gwella'r sefyllfa hon hefyd.

Gwella mynediad at addysg mewn iaith Arwyddion Prydain i blant a phobl ifanc byddar: Mae eu mynediad at addysg mewn iaith Arwyddion Prydain yn

¹ Tudalen Facebook Deffo!

² Cymdeithas Fyddar Prydain, [Welsh Deaf Youth project to end](#), 24 Hydref 2013

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb](#)

gyfyngedig ar hyn o bryd, ac yn aml, mae cymwysterau'r cynorthwyyr sydd ar gael yn annigonol. Mae bwloch enfawr o ran addysg plant byddar, ac mae llawer yn cael eu trin, ar gam, fel pe tai ganddynt anabledd dysgu. Mae hynny'n effeithio'n negyddol ar eu datblygiad, gan olygu eu bod nhw'n llai annibynnol oherwydd addysg wael, gan arwain at ddiffyg cyflogaeth. Mae angen sicrhau bod gweithwyr cymorth cyfathrebu sydd â chymwysterau digonol ar gael mewn ysgolion.

Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau ym maes Iaith Arwyddion Prydain ar gael i bobl ifanc fyddar: Galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith drwy adnoddau digidol ar gyfer gwasanaethau fel addysg, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael iddynt yn ddiwahân, yn yr un modd â mynediad yn achos yr iaith Gymraeg.

3. Casglodd y ddeiseb 1,162 o lofnodion gan ddefnyddio cyfuniad ar adnodd deisebau ar-lein y Cynulliad a deiseb bapur.
4. Hoffai'r Pwyllgor Deisebau (y Pwyllgor) ddiolch i'r deisebwyr am dynnu ein sylw at y mater pwysig hwn ac am eu gwaith caled a'u hymroddiad drwy gydol y broses.
5. Hoffem hefyd gofnodi ein diolch i bawb sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, gan gynnwys y deisebydd, y Gweinidogion perthnasol a'u swyddogion ac eraill sydd wedi ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth.

Y cefndir

6. Mae Arolwg diweddaraf y Consortiwm ar gyfer Ymchwil mewn Addysg Fyddar (CRIDE) (2016/17) ar ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant byddar yng Nghymru yn dangos bod 2,642 o blant byddar yng Nghymru.⁴ Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru (PLASC) yn dangos bod 3,116 o ddisgyblion â'u prif anghenion addysgol arbennig oedd nam ar eu clyw (mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol).⁵
7. Tynnwyd sylw at rai o'r materion a godwyd yn y ddeiseb yn ddiweddar yn y ffilm a gynhyrchwyd yn y DU ac a enillodd wobr Oscar, *The Silent Child*.⁶ Mae'r ffilm fer wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebir gan blant a phobl

⁴ Y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, [Arolwg CRIDE o ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant byddar](#).

⁵ Llywodraeth Cymru, [Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2017](#) (PDF, 792KB)

⁶ www.thesilentchildmovie.com/

ifanc byddar mewn bywyd bob dydd wrth iddynt geisio cyfathrebu â ffrindiau a theulu.

8. Ers i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf, bu nifer o ddatblygiadau ym maes polisi addysg, gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yng Nghymru yn dilyn Adolygiad Donaldson⁷ a phasio'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).⁸

⁷ Llywodraeth Cymru, [Cwricwlwm ysgol newydd](#)

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#)

2. Yr amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor Deisebau

- 9.** Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2015. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb cychwynnol gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a chefnidir a rhesymeg pellach a ddarparwyd gan y deisebwyr.
- 10.** Parhaodd y Pwyllgor i ystyried y ddeiseb drwy gydol 2015 drwy ohebiaeth ysgrifenedig gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd a chyda'r deisebwyr. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, ymgysylltodd y Pwyllgor Deisebau ar y pryd gydag Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ar y pwnc hwn.
- 11.** Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r deisebwyr ar 23 Mai 2017 a chydag Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ar 27 Mehefin 2017.
- 12.** Wrth ystyried y ddeiseb, mae'r Pwyllgor hefyd wedi annog gweithredu drwy lwybrau eraill. Mae'r rhain wedi cynnwys annog y Gweinidog i ymgysylltu â Deffo! fel rhan o'r ymgynghoriad ar argymhellion yr adroddiad i adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.
- 13.** Tynnodd y Pwyllgor sylw hefyd at y ddeiseb i Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gofynnodd i Deffo! gael ei gynnwys fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor hwnnw ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.
- 14.** Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i grynodedb o'r dystiolaeth a gafodd yn ystod mis Mai 2018 ac yna cytunodd i lunio adroddiad ac argymhellion ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

Uchelgeisiau'r deisebwyr

- 15.** Mae'r ddeiseb yn awyddus i weithredu mewn pedwar prif faes, sef:
 - Gwella mynediad fel y gall teuluoedd ddysgu Iaith Arwyddion Prydain, ac yn benodol y dylid cynnig gwersi am ddim neu â chymhorthdal i rieni;
 - Cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain ar y cwricwlwm i bob dysgwr;
 - Gwella mynediad at addysg mewn Iaith Arwyddion Prydain i blant a phobl ifanc byddar; a

- Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau ym maes Iaith Arwyddion Prydain ar gael i bobl ifanc fyddar mewn meysydd megis addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

16. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn ystyried pob un o'r agweddau hyn yn eu tro.

3. Gwella mynediad fel y gall teuluoedd ddysgu Iaith Arwyddion Prydain

17. Mae'r deisebwyr yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu teuluoedd lle mae plentyn yn cael diagnosis ei fod yn fyddar neu'n drwm ei glyw. Gall darparu dosbarthiadau Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer rhieni a brodyr a chwiorydd fod yn ffordd hanfodol o gefnogi teuluoedd o'r fath a hwyluso cyfathrebu da. Mae'r deisebwyr wedi cynghori'r Pwyllgor bod dosbarthiadau Iaith Arwyddion Prydain i oedolion ar lefel un yn costio tua £300 y pen. Amlygwyd hyn hefyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r deisebwyr ym mis Mai 2017 pan ddywedodd Helen Robins-Talbot o Deffo! wrth y Pwyllgor:

“They start off at an average of £300 for level 1, going up to anything from £1,200 to £1,600 for level 3, which we think is the appropriate level... to be able to communicate effectively with your children if you're going to develop them educationally.”⁹

18. Darperir llawer o'r dosbarthiadau hyn drwy gyrsiau addysg i oedolion sy'n golygu nad oes llawer o gyfleoedd, os o gwbl, i deuluoedd, gan gynnwys brodyr a chwiorydd plant byddar/trwm eu clyw, ddysgu Iaith Arwyddion Prydain gyda'i gilydd. Pan fo darpariaeth o'r fath ar gael, gall y gost fod yn ataliol, yn enwedig i'r teuluoedd hynny sydd ar incwm isel neu sy'n derbyn budd-daliadau. Nododd gohebiaeth gan y deisebwyr ym mis Mawrth 2015:

“We have knowledge of a parent seeking BSL provision, who has had to access this through the support of a local charity, rather than any local authority provision. The charity has also sought to link with local colleges to access funding, for this individual and others in their peer group, and this has been rejected, without signposting to alternative provision.”¹⁰

19. Mae'r deisebwyr yn cydnabod bod dysgu Iaith Arwyddion Prydain yn ddewis yn hytrach nag angen meddygol ac, fel y cyfryw, mae perygl y gall dosbarthiadau Iaith Arwyddion Prydain gael eu hatal yn ystod cyfnodau o bwysau ariannol. Cynigiwyd, fel opsiwn amgen, y gallai Llywodraeth Cymru gydnabod Iaith Arwyddion Prydain fel iaith leiafrifol, ac y dylai awdurdodau lleol ei hystyried yn iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw.

⁹ Cofnod y Trafodion, 23 Mai 2017, paragraffau 134

¹⁰ Y deisebwyr at y Pwyllgor, 17 Mawrth 2015 (PDF, 574KB)

20. Mae Gweinidogion wedi nodi'n gyson i'r Pwyllgor mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth i deuluoedd lle mae plentyn yn fyddar neu'n drwm ei glyw. Ategwyd hyn gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2017. Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a weithredir gan awdurdodau lleol yn defnyddio'r model *Tîm o Amgylch y Teulu* sy'n ceisio:

“[...] pull together the right people from the right agencies to ensure that a family receives the right advice, help and support in a timely manner.”¹¹

21. Os penderfynir bod angen cefnogaeth ar gyfer darpariaeth iaith Arwyddion Prydain i'r teulu, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw rhoi'r trefniadau priodol ar waith. Mewn ymateb i hyn, nododd Deffo! nad oedd ei ddefnyddwyr yn cofio cael cyfle i ymgysylltu â'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

“None of the users we represent recall engagement with Families First... We do not doubt that the Team Around the Family Model is supposed to achieve solutions such as this, but the evidence suggests to the contrary.”¹²

22. Dywedodd y deisebwyr eu bod wedi cysylltu'n anffurfiol ag awdurdodau lleol yng Nghymru i holi am fynediad. Gwnaethant ddweud wrth y Pwyllgor:

“I went home and I rang the local authorities, a number of them, and they said that there is no facility whereby parents – that is what we're aiming for – of deaf children can actually access free sign language courses, or there's nothing for children either... Then we were told that there was finance available which would be through the local authorities. So, again, I went home and I rang around, and yes, lifelong learning does have a budget for adult education. However, it was perceived, at that time, for there to be no need for BSL classes.”¹³

23. Yn yr un modd, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Golegau Addysg Bellach, pob sefydliad unigol sy'n penderfynu ar gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu yn ôl anghenion lleol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

¹¹ [Y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y Pwyllgor](#), 6 Mai 2015 (PDF 189KB)

¹² [Y deisebwyr at y Pwyllgor](#), 20 Mai 2015 (PDF, 366KB)

¹³ Cofnod y Trafodion, **23 Mai 2017**, paragraffau 135

“[...] because the overall approach we take to local government funding is that we allow and we expect local government to be government and not local administration of national Government, and that means that we enable and provide the opportunity for local authorities to take decisions that best reflect their priorities and the areas within which they are responsible.”¹⁴

EIN BARN NI

Credwn ei bod yn hanfodol i rieni a brodyr a chwiorydd plant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw gael cyfle i ddysgu sut i gyfathrebu drwy gyfrwng iaith Arwyddion Prydain. Er ei fod yn cydnabod mai awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach sy'n gyfrifol am benderfynu ar eu blaenoriaethau gwario eu hunain, rydym o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i arwain awdurdodau lleol i drin iaith Arwyddion Prydain fel angen iaith, yn hytrach nag ymateb i angen meddygol, a allai fod o gymorth yn ail-osod y sgwrs am ddarpariaeth ddigonol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi iaith Arwyddion Prydain fel iaith leiafrifol, ac annog awdurdodau lleol i'w chydabod fel iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar wrth ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau, gan gynnwys addysg, i blant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd. Credwn y byddai siarter o'r fath, wedi'i hategu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio cefnogaeth a darparu adnoddau ar ei chyfer o fewn fframwaith a gydnabyddir yn genedlaethol, a helpu i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth ledled Cymru.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2017, paragraffau 123

4. Iaith Arwyddion Prydain ar y Cwricwlwm Cenedlaethol

24. Dywedodd y deisebwyr wrth y Pwyllgor nad oes gan y mwyafrif o blant byddar mewn darpariaeth ysgol brif ffrwd fynediad at Iaith Arwyddion Prydain yn yr ysgol, ond fe'u haddysgir Saesneg â Chymorth Arwyddion. Eglurwyd nad yw'r math hwn o gyfathrebu yn trosglwyddo i'r amgylchedd allanol, a rhaid i blant byddar a thrwm eu clyw ddysgu Iaith Arwyddion Prydain o hyd i gyfathrebu â'u cymuned eu hunain.

25. Mae'r deisebwyr yn awgrymu y byddai cynnwys Iaith Arwyddion Prydain ar y cwricwlwm cenedlaethol nid yn unig yn ymestyn y defnydd o'r Iaith y tu hwnt i'r gymuned fyddar a thrwm eu clyw, ond yn cael y budd ychwanegol o ganiatáu i bobl ifanc fyddar ryngweithio fel unigolion cyfartal â'u cyfoedion yn gymdeithasol, yn economaidd ac mewn rhwydweithiau dysgu.

26. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o Deffo! hyn yn ystod eu tystiolaeth lafar, gyda'r awgrym:

“[...] having BSL on the national curriculum would affect everybody, obviously, and deaf people go to airports, they go to shops, they go to jobs, and so every day there's the potential to meet deaf people. And so having it on the curriculum for everybody means that you're allowing better access. It's not only about providing access for deaf people, but it's also giving other people skills to interact.”¹⁵

27. Mewn ymateb cychwynnol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Addysg 1996 i ddarparu addysg addas ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).¹⁶ Felly, lle mae anghenion plentyn wedi cael eu nodi fel rhai sydd angen darpariaeth ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain i'w galluogi i gael mynediad at y cwricwlwm, dylid darparu ar gyfer hyn.

28. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. O ganlyniad i'r adolygiad, dywedodd y Gweinidog y byddai ymgynghoriad ar y weledigaeth a'r diben arfaethedig ar gyfer addysg Gymraeg.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, [23 Mai 2017](#), paragraffau 168

¹⁶ [Y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y Pwyllgor](#), 6 Mawrth 2015 (PDF 191KB)

29. Mynegodd Deffo! rwystredigaeth nad oedd wedi cael cyfle i gyfrannu at gam cyntaf yr adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a dywedodd nad oedd yn glir pa lefel o ymgysylltiad ar yr adolygiad a gyflawnwyd gan y gymuned fyddar. Fodd bynnag, roedd yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y cam nesaf.

30. Drwy gyfathrebu rhwng y Pwyllgor a'r deisebwyr, a'r Pwyllgor a'r Gweinidog, daeth yn amlwg na ddaeth unrhyw beth o'r cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar adolygiad Donaldson. Penderfynodd Deffo! ofyn am gyfarfod â'r Gweinidog, ac ym mis Rhagfyr 2015, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r deisebwyr ystyried derbyn y cynnig o gyfarfod â swyddogion yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, yn ystod hydref 2016.

31. Ar wahân i waith y Pwyllgor, gofynnodd Mike Hedges AC i'r Prif Weinidog yn ystod y Cwestiynau ar 17 Ionawr 2017 a fyddai'n cefnogi creu TGAU mewn iaith arwyddion fel iaith gyntaf, a'i thrin fel rhywbeth sy'n cyfateb i Gymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf mewn TGAU. Mewn ymateb, ymrwymodd y Prif Weinidog i godi'r mater gyda Cymwysterau Cymru.¹⁷ Yn ystod ein trafodaethau gyda'r Gweinidog ym mis Mehefin 2017 nodwyd nad oedd Cymwysterau Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais hwn, ond y gellid ymchwilio i lwybrau eraill.¹⁸

32. Yn ystod y trafodaethau hyn, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod penderfyniad wedi'i wneud fel rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu i gynnwys iaith Arwyddion Prydain fel rhan o'r maes dysgu iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Fodd bynnag, byddai angen rhagor o fanylion i benderfynu sut y byddai hyn yn cael ei ddangos.

“The curriculum development is in its second stage. It’s still fairly high level. There are six areas of learning, one of which is language, literacy and communication, which is the relevant one. They’ve been considering, at this point, what would come within the scope and boundaries—so, what it would contain. They’ve already made the decision that it would contain British Sign Language. So, the next phase of work they will have is what detail goes into that area of learning experience.”¹⁹

33. Yn ei dystiolaeth lafar ym mis Mai 2017, nododd Deffo! y byddai cael iaith Arwyddion Prydain ar y cwricwlwm yn arwain at fynediad gwell i bawb.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2017, paragraffau 5-6

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2017, paragraffau 131-3

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2017, paragraffau 134

Manteisiodd y deisebwyr ar y cyfle hwn hefyd i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau mynediad at ddysgu iaith Arwyddion Prydain yn gynnar:

“What we’re actually asking for, through the petition, is for BSL to be put on the national curriculum to give everyone the opportunity to learn it, because the way we’re looking at it is that the more people in society who can sign, even if it’s just your local shopkeeper who can ask you what you want, or you go to a local pub and want a pint – and, instead of having to point at everything, someone can then say ‘Oh, you want a pint’, you know. So, we think that if it’s in education then people will take it on.”²⁰

EIN BARN NI

Rydym yn falch bod y rheini sydd wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd wedi cynnwys iaith Arwyddion Prydain fel rhan o Brofiad Dysgu Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu, er ein bod yn deall bod manylion am y cwricwlwm yn dal i gael eu datblygu.

Fodd bynnag, rydym yn siomedig nad yw Cymwysterau Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r awgrym o gymhwyster TGAU newydd mewn iaith arwyddion fel iaith gyntaf, yn enwedig gan fod hyn wedi cael cefnogaeth amlwg gan y Prif Weinidog. Yn fuan cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, gwnaethom nodi bod Llywodraeth y DU bellach wedi dweud y bydd yn ystyried cyflwyno TGAU mewn iaith Arwyddion Prydain.

Argymhelliad 3. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod iaith Arwyddion Prydain yn cael ei hystyried yn weithredol yn y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru, yn benodol fel rhan o Brofiad Dysgu Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu. Felly, rydym yn argymhell bod y cyfle i ddysgu iaith Arwyddion Prydain ar gael i blant ar bob lefel addysg. Fel rhan o hyn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ystyried creu TGAU iaith arwyddion fel iaith gyntaf gyda Cymwysterau Cymru.

²⁰ Cofnod y Trafodion, 23 Mai 2017, paragraffau 150

5. Gwella mynediad at addysg mewn Iaith Arwyddion Prydain i blant a phobl ifanc byddar

34. Drwy ei ddeiseb, roedd Deffo! yn ceisio tynnu sylw at y cyfyngiadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar pan gânt eu trin fel bod ganddynt anabledd dysgu, yn hytrach na bod yn ddefnyddwyr iaith heblaw'r Saesneg. Mae'n honni bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad, yn lleihau eu hannibyniaeth ac yn arwain yn yr hirdymor at ddifyg cyflogaeth.

35. Cyfeiriodd Deffo! at adroddiad 2014²¹ a nododd y canlynol:

- Y cyswllt cyfartalog ag Athro'r Byddar yw 3 awr yr wythnos - llai na'r targed o 270 awr y flwyddyn;
- Mae gan 13 y cant o ddisgyblion byddar wersi Iaith Arwyddion Prydain dynodedig;
- Mae 27 y cant yn cael hyfforddiant un-i-un;
- Mae 40 y cant yn teimlo bod ganddynt fynediad at fodolau rôl byddar; a
- Disgwylir i 38 y cant o'r 67 o Athrawon y Byddar cymwysedig ymddeol o fewn 15 mlynedd.

36. Mae Deffo! yn awgrymu nad oes gan lawer o Athrawon y Byddar gymhwyster Iaith Arwyddion Prydain, a bod cynorthwywyr addysgu yn cymryd lle llawer ohonynt. Mae'n dadlau yr ymddengys bod y data'n dangos nad yw'r fframwaith o ddarpariaeth AAA yn gweithio'n briodol i sicrhau mynediad at Iaith Arwyddion Prydain.

37. Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan Deffo! mae Gweinidogion wedi cynghori bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer plant ag AAA. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros sicrhau bod staff sydd â'r cymwysterau priodol ar gael mewn ysgolion lle mae dysgwyr wedi'i nodi fel bod angen darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain arno.²² Darperir

²¹ Y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, [Arolwg CRIDE o ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant byddar, 2014](#) (PDF, 366KB)

²² [Y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y Pwyllgor](#), 6 Mawrth 2015 (PDF 191KB)

arian drwy'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol fodloni eu dyletswyddau statudol ynghylch darpariaeth anghenion addysgol arbennig. Mae'r Grant yn caniatáu hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol a'r disgrisiwn i ariannu cymorth penodol yn ôl yr angen.²³

38. Mae Deffo! yn ystyried y gall yr hyblygrwydd hwn weithio yn erbyn y ddarpariaeth ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain, y mae'n cydnabod ei fod yn ddewis yn hytrach nag angen meddygol. Fel dewis amgen, mae'r deisebwyr yn awgrymu y gellid neilltuo cyllid ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain. Ym Medi 2015, awgrymodd hefyd fod cyfarwyddo'r cyfrifoldeb dros addysg pobl ifanc byddar i awdurdodau lleol yn arwain at anghysondeb darpariaeth heb unrhyw feincnodau, safonau na fframweithiau cenedlaethol.²⁴

Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

39. Ym mis Mawrth 2015 nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA drwy gyflwyno fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft ym mis Gorffennaf 2015 ac roedd y Gweinidog yn annog Deffo! i gyflwyno ei sylwadau. Ar y cam hwnnw, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn i Deffo! gael ei gynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad ar anghenion dysgu ychwanegol, ac i gadw'r deisebwyr mewn golwg os gwneir unrhyw waith cyn deddfu.

40. Parhaodd y gwaith ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drwy gydol y cyfnod y bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb. Mae'r ddeddfwriaeth yn ffurfio un rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN-TP) ehangach. Yn gynnar yn 2017 dywedodd Deffo! wrth y Pwyllgor nad oedd y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn diwallu anghenion ei gymuned yn ei farn ef, ac nid oedd yn mynd i'r afael yn benodol â'r materion a godwyd yn y ddeiseb.²⁵

41. Wrth ddarparu tystiolaeth lafar ym mis Mai 2017, ailadroddodd y grŵp ei farn y dylid trin pobl ifanc fyddar fel grŵp iaith leiafrifol ac nid o reidrwydd eu dosbarthu fel pobl anabl neu bobl sydd ag anghenion addysgol arbennig (er ei

²³ [Y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y Pwyllgor](#), 6 Mai 2015 (PDF 189KB)

²⁴ [Y deisebwyr at y Pwyllgor](#), 14 Medi 2015 (PDF 825KB)

²⁵ [Y deisebwyr at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2017 (PDF, 474KB)

fod yn cydnabod y gallai rhai plant a phobl ifanc byddar fod ag anghenion ychwanegol).

“[...] the ALN Bill at the moment doesn't hold a lot of water with our parents because it specifically targets SEN. There is no provision within the ALN Bill that actually says, 'This is how we're going to look after your deaf children'.”²⁶

42. Daeth y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn gyfraith yng Nghymru ar 24 Ionawr 2018.

Datblygu a chynllunio'r gweithlu

43. Ym mis Mai 2015, dywedodd y Gweinidog hefyd fod astudiaeth o Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol AAA yn mynd rhagddi, a'i bod yn cynnwys athrawon cymwysedig ar gyfer y byddar. Roedd gohebiaeth gan y Gweinidog ym mis Chwefror 2017 yn nodi bod data'n cael eu casglu, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ar faterion gweithlu arbenigol i ddarparu gwybodaeth i ddeall y materion a'r camau gweithredu sy'n ofynnol, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau arbenigol dwyieithog.

44. Trafododd y Gweinidog hyn ymhellach yn ystod ei sesiwn dystiolaeth ym mis Mehefin 2017. Dywedodd y byddai'r mater o ran y plant sy'n cael eu haddysgu a'u helpu gan gynorthwyr dysgu sydd heb unrhyw ddealltwriateh o iaith Arwyddion Prydain yn cael ei archwilio, ac y byddai unrhyw gymhwyster neu safon isaf y gellid ei gyflwyno yn safon ddeinamig yn hytrach na safon sefydlog.

EIN BARN NI

Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai gweithredu ein dau argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan y deisebwyr yn hyn o beth. Yn benodol, byddai annog awdurdodau lleol i gydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar a datblygu siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau, gan gynnwys addysg, i blant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd yn darparu fframwaith i fynd i'r afael â materion fel hyfforddiant un-i-un neu gysylltu ag Athro'r Byddar.

²⁶ Cofnod y Trafodion, 23 Mai 2017, paragraffau 198

Mae cael cyflenwad digonol o Athrawon y Byddar cymwysedig o bwysigrwydd hanfodol, a chyda 2 o bob 5 o'r athrawon hynny y disgwylir iddynt ymddeol o fewn y 15 mlynedd nesaf, mae'n hanfodol diogelu cynaliadwyedd y ddarpariaeth.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol AAA, gan ganolbwyntio'n benodol ar athrawon sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o gynaliadwyedd tymor hwy y gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, rydym yn cefnogi'r syniad o gyflwyno cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain safonol gofynnol ar gyfer cynorthwyywyr dysgu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc byddar.

6. Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau ym maes Iaith Arwyddion Prydain ar gael i bobl ifanc fyddar

45. Roedd agwedd olaf y ddeiseb yn galw am sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn hygyrch i bobl ifanc fyddar mewn Iaith Arwyddion Prydain.

46. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddeddfu ynghylch unrhyw iaith heblaw'r Gymraeg. Awgrymodd y gallai fod yn fwy ymarferol ehangu darpariaeth gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain drwy amcanion cydraddoldeb a osodwyd gan awdurdodau cyhoeddus sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

47. Fodd bynnag, roedd Deffo! yn honni bod ganddo dystiolaeth i ddangos bod llawer o bobl ifanc fyddar yn methu â chael mynediad at wasanaethau gyda'r addasiad rhesymol y mae ganddynt yr hawl iddo o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2015, cyfeiriwyd at arolwg gan y BBC a oedd yn awgrymu y gall hyn fod mor uchel â 90 y cant mewn perthynas â darpariaeth iechyd mewn meddygfeydd meddygon teulu.²⁷

48. Ym mis Rhagfyr 2015, nododd Deffo! fod llawer o'i gyfathrebu â'r Gweinidog ers cyflwyno ei ddeiseb wedi digwydd drwy'r Pwyllgor.²⁸ Roedd o'r farn bod hyn yn dangos diffyg sianeli cyfathrebu ar gyfer rhanddeiliaid a theuluoedd plant byddar i fynegi eu pryderon yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny, cafodd y deisebwyr gyfle i gyfarfod â'r Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru.

49. Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth lafar yn 2017, gwnaeth Deffo! gymariaethau â'r system addysg yn Lloegr sydd â darpariaeth benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n fyddar ac yn drwm eu clyw.²⁹ Soniodd y tystion am eu profiad o fynychu ysgol breswyl yn Lloegr, a'r manteision a gafwyd o fod yn agos at gyfoedion a oedd oll yn cyfathrebu drwy Iaith Arwyddion Prydain. Nododd y tystion hefyd mai dim ond un gweithiwr ieuencid byddar sydd ar gyfer Cymru gyfan.

²⁷ [Y deisebwyr at y Pwyllgor, 17 Mawrth 2015 \(PDF, 574KB\)](#)

²⁸ [Y deisebydd at y Pwyllgor, 1 Rhagfyr 2015 \(PDF, 355KB\)](#)

²⁹ Cofnod y Trafodion, [23 Mai 2017](#), paragraffau 182-6

50. Yn ei sesiwn dystiolaeth lafar, ailadroddodd y Gweinidog ei farn y dylai pob plentyn gael ei addysgu fel arfer mewn ysgolion prif ffrwd, cyhyd â bod hynny'n parhau'n gydnaws â'r ddarpariaeth addysg arbennig y mae eu hanghenion dysgu yn galw amdani. Nododd hefyd fod y ddarpariaeth o waith ieuenctid yn fater i awdurdodau lleol ac nid Llywodraeth Cymru.³⁰

EIN BARN NI

Credwn y bydd ein hargymhelliad cynharach mewn perthynas â datblygu siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau i blant a phobl ifanc fyddar yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion terfynol a godwyd gan y deisebwyr. Byddai fframwaith o'r fath yn helpu i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth gwasanaeth ar draws awdurdodau lleol ac yn darparu strwythur atebolrwydd lle nad yw darpariaeth o'r fath yn bodloni safonau addas.

Hoffem hefyd nodi bod ymagwedd gyffredinol y Gweinidogion tuag at ein hystyriaeth o'r ddeiseb hon wedi nodi amharodrwydd i gydnabod y rôl y gallai llywodraeth genedlaethol ei chwarae yn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fyddar a thrwm eu clyw. Rydym yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol yn sicr yn y mater hwn – a dylent fod yn atebol am ddarparu gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn nad oes gan lywodraeth genedlaethol gyfrifoldeb dros sicrhau bod lefelau priodol a chyson o ddarpariaeth a chymorth Iaith Arwyddion Prydain yn bodoli ledled Cymru. Rydym o'r farn y byddai ein hargymhellion yn helpu i gyflawni hyn.

³⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2017, paragraffau 162-3 a 192